ASTUDIAETH ACHOS AR FUDO: GWLAD PWYL I'R DU

Medi 2007

Neil Punnett

Cyflwyniad

Ar 1 Ebrill 2004 roedd Gwlad Pwyl yn un o ddeg gwlad a ymunodd â'r Undeb Ewropeaidd. Roedd wyth o'r gwledydd hyn (a adnabyddid fel yr A8 gan yr UE) yn wledydd Dwyrain Ewrop (Ffigur 1), a Malta a Chyprus oedd y ddwy arall, gwladwriaethau yn ynysoedd y Môr Canoldir. Mae'r UE yn caniatáu i weithwyr symud yn rhydd rhwng ei haelod-wledydd. Rhagwelwyd cynnydd mewn mudo i wledydd mwy llewyrchus yr UE yn dilyn ymuniad gwledydd yr A8, oedd â chyfraddau diweithdra uwch a safonau byw is ar y cyfan. Rhagfynegodd llywodraeth y DU y byddai 15,000 o fudwyr o wledydd yr A8 yn symud i'r DU i chwilio am waith.

Ffigur 1: Y Gwledydd A8 a ymunodd â'r UE ym mis Ebrill 2004

Mudo o Wlad Pwyl

Fel arfer, mae dinasyddion gwledydd A8 sy'n dymuno gweithio yn y DU am fwy na mis yn gorfod cofrestru gyda Chynllun Cofrestru Gweithwyr (CCG, WRS) y Swyddfa Gartref. Yn hytrach na'r 15,000 a ragwelwyd, erbyn mis Gorffennaf 2006 roedd 447,000 o bobl o Ddwyrain Ewrop wedi gwneud cais i weithio yn y DU (Ffigur 2). Daeth 62% (264,555) ohonynt o Wlad Pwyl. Symudodd 105,000 arall rhwng misoedd Gorffennaf a Rhagfyr 2006, gan godi cyfanswm y gweithwyr mudol o Wlad Pwyl i 370,000 ers mis Ebrill 2004. Mudodd 150,000 arall o wledydd yr A8 i'r DU fel gweithwyr hunangyflogedig, megis adeiladwyr a phlymwyr, nad ydynt yn gorfod cofrestru gyda'r CCG. Datganodd Llysgenhadaeth Gwlad Pwyl fod nifer y gweithwyr o Wlad Pwyl a oedd ym Mhrydain rhwng 500,000 a 600,000. Byddai hyn yn golygu mai Pwyliaid yw'r trydydd grŵp ethnig lleiafrifol mwyaf yn y DU erbyn hyn, ar ôl Pacistaniaid ac Indiaid.

Daeth mwy o fudwyr tymor hir o Wlad Pwyl i'r DU yn 2005 na dinasyddion unrhyw wlad arall. Mudodd 49,000 i'r DU yn 2005, bron i deirgwaith y cyfanswm o 17,000 yn 2004. Cynyddodd cyfrannedd y Pwyliaid o fewn y grŵp A8 oedd yn mudo i'r DU am o leiaf blwyddyn o tua 35 y cant yn 2004 i fwy na 70 y cant yn 2005. Ar y cyfan, amcangyfrifwyd bod 64,000 yn fwy o ddinasyddion A8 wedi mudo i'r DU am o leiaf blwyddyn nag a adawodd yn 2005, o gymharu â 49,000 yn 2004. Yn 2005, gadawodd 16,000 o ddinasyddion A8 y DU; yn 2004, 3,000 yn unig oedd y ffigur.



Ffigur 2: Ceisiadau i Gynllun Cofrestru Gweithwyr y DU o wledydd yr A8

Rhesymau dros fudo

Pam mae cynifer o Bwyliaid yn dod i'r DU? Ceir nifer o ffactorau 'gwthio' sy'n annog Pwyliaid i adael eu gwlad eu hunain, a nifer o ffactorau 'tynnu' sy'n eu denu i'r DU. Tra bo'r awydd i gael profiad o fyw dramor ac i ddysgu neu

wella eu Saesneg llafar yn ffactorau, y rheswm sylfaenol yw'r cyferbyniad yn economïau'r ddwy wlad:

- Yng Ngwlad Pwyl, roedd cyfartaledd y gyfradd diweithdra yn 18.2% yn 2005, y gyfradd diweithdra uchaf ymhlith 27 gwlad y Mudiad dros Gydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD), gyda chyfraddau diweithdra o fwy na 40% mewn rhai ardaloedd gwledig. Roedd Pwyliaid ifanc, hyd yn oed rai â lefel uchel o addysg, yn wynebu cyfradd diweithdra o dros 40% ymysg yr ifanc.
- 5.1% yn unig yw cyfradd diweithdra'r DU, ac mae prinder sylweddol o sgiliau yn y wlad, yn ogystal â galw uchel am weithwyr lled-grefftus a gweithwyr di-grefft.
- Roedd nifer cyfartalog y swyddi gweigion yn y DU am y tri mis hyd Ionawr 2007 yn 607,900. Cododd hyn 6,200 yn ystod y flwyddyn.
- Yng Ngwlad Pwyl, roedd CMC (Cynnyrch Mewnwladol Crynswth) blynyddol y pen yn 2006 oddeutu $12,700, o gymharu â $30,900 yn y DU.

Mae'n ffactor bwysig mai'r DU, ynghyd ag Iwerddon a Sweden, oedd yr unig dair gwlad yn yr UE i beidio â chyfyngu ar fewnfudiad o'r A8 yn dilyn eu hymuniad. Mae Iwerddon wedi derbyn mewnlifiad cyfatebol uwch hyd yn oed o fudwyr A8 na'r DU, gan gynnwys amcangyfrif o 170,000 o Bwyliaid. Agorodd y Ffindir, Groeg, Portiwgal, yr Eidal a Sbaen eu marchnadoedd llafur i'r gweithwyr hyn o ganol 2006. Penderfynodd gweddill aelod-wladwriaethau'r UE (yn cynnwys Ffrainc, yr Almaen ac Awstria) barhau i gyfyngu ar fewnfudiad am hyd at saith mlynedd.

Tabl 1: Y prif swyddi y cyflogwyd gweithwyr cofrestredig ynddynt (Mehefin 2004-Mehefin 2006)

Swydd	Cyfanswm
Gweithwyr ffatri	95, 865
Glanhawyr, morynion, gwasanaethyddion ystafelloedd gwesty	33, 925
Gweithwyr fferm, cynaeafwyr a chasglwyr ffrwythau	29, 705
Cynorthwywyr cegin ac arlwyo, pen-cogyddion	28, 975
Gweithwyr storfa	25, 215
Pacwyr	24, 130
Gweinyddion, gweinyddesau	15, 840
Cynorthwywyr gofalu a gofalwyr cartref	12, 610
Gweithwyr prosesu bwyd	11, 325
Cynorthwywyr siop	10, 535
Llafurwyr adeiladu	10, 525
Gyrwyr (cerbydau nwyddau trwm a faniau dosbarthu)	6, 315
Gweithwyr tafarn	6, 030
Eraill	77, 270
CYFANSWM	**388, 265**

Ffynhonnell: y Swyddfa Gartref

Mae sgyrsiau'r awdur â gweithwyr mudol o Wlad Pwyl yn rhoi tystiolaeth anecdotaidd eu bod yn gallu ennill pedair i bum gwaith yn fwy o arian yn y DU, tra bo costau byw tua dwywaith cymaint yn unig. Mae llawer yn bwriadu gweithio yn y DU am ychydig flynyddoedd ac yna ddychwelyd i Wlad Pwyl gyda'u cynilion.

Nodweddion y mudwyr o Wlad Pwyl

Gweithwyr diwydiannol medrus a di-grefft yw'r grŵp cymdeithasol mwyaf o bell ffordd ymysg y rhai sydd wedi mudo'n ddiweddar o Wlad Pwyl i'r DU. Maent yn barod i fynd i'r DU i chwilio am fywyd gwell oherwydd eu bod ymysg y bobl dlotaf yn y gymdeithas Bwylaidd, ac yn nodweddiadol yn gorfod byw ar £150 y mis yng Ngwlad Pwyl; yn aml mae ganddynt deuluoedd ifanc hefyd. Mae is-grŵp pwysig arall o fudwyr yn cynnwys myfyrwyr Pwylaidd sy'n cymryd blwyddyn allan cyn neu ar ôl cwblhau eu cwrs gradd prifysgol.

Dengys Tabl 1 mai gweithwyr ffatri yw'r grŵp mwyaf o weithwyr A8 a gofrestrwyd gyda'r CCG (sy'n cyfrif am 25% o'r cyfanswm rhwng misoedd Mehefin 2004 a Mehefin 2006). Mae swyddi sgiliau isel, yn cynnwys glanhawyr, morynion, gweithwyr fferm, cynorthwywyr cegin, gweinyddion, labrwyr adeiladu a phacwyr yn cynrychioli 37% arall.

Nid yw'n glir faint o'r mudwyr a gofrestrwyd gyda'r CCG sydd yn y DU ar unrhyw adeg benodol. Fodd bynnag, dangosodd yr Arolwg o'r Llafurlu fod llai na hanner y rhai oedd wedi cofrestru ers mis Mai 2004 yn dal i fyw yn y DU ym mis Medi 2005. Felly, yn achos y rhan fwyaf o'r mudwyr, mae'r amser maent yn ei dreulio yn y DU yn gyfyngedig.



Ffigur 3: Dosbarthiad daearyddol gweithwyr mudol A8 ledled Lloegr

Dosbarthiad mudwyr o Wlad Pwyl o fewn y DU

Yn aml, mae mudo yn dilyn patrwm o wasgariad araf o borthladd y glanio. Mae prifddinasoedd a threfi diwydiannol mawr yn draddodiadol atyniadol i fudwyr. Cyn 2004, roedd poblogaethau mudol mwyaf y DU wedi eu canoli yn Llundain, Birmingham, Manceinion, Leeds, Nottingham, Sheffield, Caerlŷr ac ardaloedd diwydiannol trefol eraill. Nodwedd ddiddorol ynglŷn â mewnlifiad mudwyr A8 yw eu gwasgariad daearyddol eang ar draws y DU, nid yn unig ar draws dinasoedd diwydiannol ond hefyd ar draws ardaloedd gwledig. Cofrestrodd 120,000 o weithiwyr mudol mewn ardaloedd gwledig yn Lloegr rhwng mis Mai 2004 a mis Medi 2006. Swydd Henffordd yw'r brif ardal wledig, gyda 8,156 o gofrestriadau; a cheir crynoadau sylweddol hefyd yn Swydd Lincoln, y Wash a Dwyrain Swydd Efrog (Ffigur 3).

Mae tair sector economaidd yn cyfrif am fwy na thri chwarter cofrestriadau'r CCG mewn ardaloedd gwledig:

gweithgynhyrchu (33%), amaethyddiaeth a physgodfeydd (25%), a dosbarthu, gwestai a manwerthu (20%). Tra bo hyn yn cyfrif am 78% o swyddi gweithwyr mudol mewn ardaloedd gwledig, 36% yn unig o gyfanswm swyddi gwledig mae'r sectorau hyn yn eu cynrychioli. Nid oes gan weithwyr mudol gynrychiolaeth ddigonol mewn sectorau megis bancio a chyllid, addysg ac iechyd, a gweinyddiaeth gyhoeddus.

Rhoddwyd hwb i lif y mudo gan dwf cwmnïau hedfan rhad, sy'n gweithredu o 9 maes awyr yng Ngwlad Pwyl i 18 maes awyr yn y DU (Ffigur 4). Gall cyflogwyr rhanbarthol sy'n chwilio am weithwyr rhad a thros dro ddefnyddio asiantaethau i ddod â phobl i mewn yn gynt nag o'r blaen o ganlyniad i'r ehediadau i feysydd awyr rhanbarthol. Clywodd Kathy Burrell hyn gan un fewnfudwraig ifanc o Wlad Pwyl:

> 'Fel yr awgrymodd Joanna, 28 oed, a gyrhaeddodd Brydain yn 2005, nid yw dod i Brydain mor wahanol â hynny i symud i ddinas arall yng Ngwlad Pwyl: "Roeddwn i'n meddwl, dydw i ddim yn teimlo fy mod i wedi mudo, rydw i'n teimlo fy mod i wedi newid tref er mwyn newid swydd, mae o fel petawn i heb symud o Katowice i Derby; ond o Katowice i Sopot neu Gdansk. Dyna sut mae'n ymddangos i mi. Ac rydw i'n eithaf hapus gyda hynny.'"

Mae'n annhebygol y byddai Joanna wedi cyrraedd Derby heb y cludiad rhad i Faes Awyr Dwyrain Canolbarth Lloegr gerllaw.

Mae'r twf yn niferoedd y teithwyr o feysydd awyr Gwlad Pwyl wedi bod yn rhyfeddol; yn 2000 roedd 5.7 miliwn o deithwyr rhyngwladol yn defnyddio meysydd awyr Gwlad Pwyl, erbyn 2006 roedd hyn wedi cynyddu i 15 miliwn. Tra bo trafnidiaeth o Warszawa wedi dyblu bron o 4.3 miliwn i 8.1 miliwn, cynyddodd trafnidiaeth o wyth maes awyr rhanbarthol bum gwaith, o 1.4 miliwn i 6.9 miliwn (Tabl 2). Gwlad Pwyl yw'r ail farchnad trafnidiaeth awyr i dyfu gyflymaf yn y byd, ar ôl China.

Mae'r rhan fwyaf o'r twf hwn o ganlyniad i ehediadau i'r DU. Er enghraifft, cynyddodd niferoedd teithwyr rhyngwladol maes awyr Gdansk o 138,000 yn 2000 i 960,000 yn 2006. O'r ffigur hwn ar gyfer 2006, roedd 40% yn deithiau i'r DU: cludodd Wizz Air 168,000 i Luton, 39,000 i Lerpwl, a 28,000 i Glasgow; cludodd Ryanair 111,000 i Stansted a chludodd Centralwings 25,000 i Gaeredin.

Ffigur 4: Meysydd awyr yng Ngwlad Pwyl gydag ehediadau rhad i'r DU, a meysydd awyr yn y DU gydag ehediadau rhad rheolaidd o Wlad Pwyl.



Tabl 2: Cynnydd yn niferoedd teithwyr mewn meysydd awyr rhanbarthol yng Ngwlad Pwyl 2000-2006

Blwyddyn	Kraków	Gdansk	Katowice	Wroclaw	Poznan	Lodz	Rzeszow	Szczecin	Bydgoszsz
2000	517	270	115	185	210	3	20	60	18
2001	549	319	124	213	228	3	29	72	16
2002	501	318	131	209	227	2	55	80	18
2003	593	365	145	241	264	7	69	90	22
2004	841	467	466	288	381	6	74	96	26
2005	1586	672	831	393	419	18	94	106	39
2006	2302	1256	1129	780	671	217	207	201	134

Effaith mudo

Mae mudo o wledydd yr A8 wedi bod yn destun dadlau sylweddol yn y DU. Roedd pryderon yn cynnwys costau cynnal mudwyr Pwylaidd tlawd, Pwyliaid yn cymryd swyddi gweithwyr Prydeinig, Pwyliaid ifanc yn camymddwyn, twf Catholigiaeth ym Mhrydain, arwyddion ffyrdd yn ymddangos mewn Pwyleg, ac yn y blaen. Mae dadansoddiad mwy academaidd wedi awgrymu bod y mudwyr newydd yn fanteisiol i'r DU mewn amryw o ffyrdd:

- Mae £2.54bn yn cael ei gyfrannu i'r economi yn flynyddol gan fewnfudwyr o Ddwyrain Ewrop yn y DU.
- Mae mudwyr wedi cyfrannu 0.5 i 1% o dwf economaidd y DU yn 2005 a 2006.
- Mae 80% o fudwyr newydd yn weithwyr rhwng 18 a 35 oed. Mae hyn yn gwrthbwyso tueddiad poblogaeth y DU i heneiddio, gan fynd i'r afael â'r anawsterau o ddarparu ar gyfer poblogaeth sy'n heneiddio. Byddai'n rhaid i gyfraniadau Yswiriant Gwladol fod yn uwch petai yna lai o fewnfudo.
- Dywedodd Banc Lloegr fod mudo wedi helpu i rwystro'r codiad cyflym mewn prisiau olew rhag achosi ton niweidiol o chwyddiant, gan ganiatáu i gyfraddau llog aros yn is nag y byddent wedi bod fel arall. Amcangyfrifodd Ernst & Young y byddai cost benthyca a morgeisiau 0.5% yn uwch oni bai am y mudwyr.
- Mae'r mudwyr newydd yn cael yr enw o fod yn weithgar, yn frwdfrydig, yn fedrus ac yn hyblyg. Mae hyn wedi datgelu rhai diffygion yng ngweithlu'r DU. Tynnodd Frank Field, yr Aelod Seneddol Llafur, sylw at y ffaith fod disgyblion sy'n gorffen yn yr ysgol a myfyrwyr prifysgol sy'n chwilio am swyddi dros yr haf yn darganfod bod y swyddi hyn wedi eu llenwi eisoes gan fudwyr o Ddwyrain Ewrop. Mae rhai cyflogwyr wedi dweud bod yn well ganddynt gyflogi Pwyliaid neu Slofaciaid sydd wedi dangos menter a chryfder cymeriad trwy adael eu cartrefi a theithio i'r DU, na chyflogi Prydeinwyr ifanc difrwdfrydedd a phrin eu sgiliau.

Mae achosion pryder yn cynnwys:

- Mae cyflogwyr ac asiantaethau gwaith diegwyddor yn y DU wedi manteisio ar rai mudwyr Pwylaidd. Yn achos rhai gweithwyr, er eu bod wedi ennill yr isafswm cyflog, gwnaed didyniadau helaeth ar gyfer llety, cludiant, bwyd, a.a.y.b., a ostyngodd eu henillion yn sylweddol.
- Mae gwasgariad daearyddol eang mudwyr o Wlad Pwyl a gwledydd A8 eraill wedi dod â mudo ar raddfa eang i ardaloedd nad ydynt wedi gweld hyn o'r blaen. Mae hyn wedi creu tensiwn a chamddealltwriaeth. Mae graffiti gwrth-Bwylaidd wedi ymddangos ar strydoedd nifer o ddinasoedd yn y DU. Cafwyd achosion prin o gam-drin ac o ymosod ar weithwyr mudol. Digwyddodd yr enghreifftiau gwaethaf yng Ngogledd Iwerddon, lle taflwyd brics drwy ffenestri cartrefi'r gweithwyr mudol, ac mewn dau achos taflwyd bomiau petrol i mewn iddynt. Mae'r rhan fwyaf o'r ymosodwyr wedi bod yn Brotestaniaid dosbarth gweithiol, oedd yn ymosod ar y Pwyliaid yn gymaint am eu bod yn Gatholigion ag am eu bod i'w gweld yn dwyn swyddi.

Fodd bynnag, ar y cyfan, ychydig o senoffobia agored mae'r mewnlifiad o fudwyr A8 ar draws y DU wedi ei achosi, ac mae llawer o ymdrechion wedi eu gwneud i hwyluso eu profiad. Mae'r Yorkshire Bank wedi lansio gwasanaeth ffôn Pwyleg, agorodd Lloyds TSB gangen Bwylaidd ym Manceinion, mae arwyddion ffyrdd Pwyleg wedi ymddangos mewn amryw o ardaloedd, ac mae grwpiau cymunedol Prydeinig wedi croesawu ymwelwyr Pwylaidd mewn ymdrech i wella dealltwriaeth.

Casgliad

Mewnlifiad dros 600,000 o bobl o Ddwyrain Ewrop i'r DU yw prif ddigwyddiad demograffig y degawd hwn. Mae'n rhy gynnar i asesu'r effaith lawn, ac mae llawer yn dibynnu ar ba ganran o'r mewnfudwyr sy'n bwriadu aros yn barhaol yn y wlad hon – yn ôl yr arwyddion, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn bwriadu dychwelyd adref, ac mae llawer wedi gwneud hynny eisoes. Er bod manteision ac anfanteision i'r mewnfudiad hwn i'r DU, mae'r manteision yn bendant yn tueddu i orbwyso'r anfanteision.

'O edrych ar economi Prydain yn ei chyfanrwydd, gyda thwf uchel, lefel isel o ddiweithdra a chyfraddau llog isel, mae dyfodiad Pwyliaid, Tsieciaid a'r gweddill i'w weld yn fonws pendant gan ei fod yn ffynhonnell sgiliau, yn hybu cynhyrchiant ac yn creu trethdalwyr newydd. I bron filiwn o weithwyr sy'n parhau'n ddi-waith tra bo gweithwyr o Ddwyrain Ewrop yn ennill swyddi newydd, gallai'r dadansoddiad ymddangos yn eithaf gwahanol. Ond ni fydd cau'r drysau ar fudwyr yn helpu, tra gallai gwell hyfforddiant ac addysg wneud hynny.' (workpermit.com)

Llyfryddiaeth

David G Blanchflower, Jumana Saleheen a Chris Shadforth, *The Impact of the Recent Migration from Eastern Europe on the UK Economy*, Discussion Paper Series IZA DP Rhif. 2615 Chwefror 2007 (http://ftp.iza.org/dp2615.pdf).

Jumana Saleheen a Chris Shadforth, 'The Characteristics of Immigrants: a view of the data', *Bank of England Quarterly Bulletin* 46 (04) tudalennau 374-385.

Labour Market Statistics, First Release November 15th 2006, Swyddfa Ystadegau Gwladol

Felicity Lawrence, 'Polish workers lost in a strange land find work in UK does not pay' *The Guardian*, Ionawr 11, 2005.

Commission for Rural Communities, *A8 Migrant Workers in Rural Areas* (Ionawr 2007).

Jane Hardy a Nick Clark, 'EU Enlargement, Workers and Migration Implications for Trade Unions in the UK and Poland', papur a gyflwynwyd yng Nghweithdy Rhyngwladol Rhwydwaith Ymchwil Undebau Byd-Eang (Global Unions Research Network International Workshop), *Trade Unions, Globalization and Development – Strengthening Rights and Capabilities of Workers*, Novo Hamborgo, Brasil, Ionawr 2005 (http://www.tuc.org.uk/international/tuc-9472-f0.cfm).

Accession Monitoring report May 2004-June 2006, adroddiad ar-lein ar y cyd gan y Swyddfa Gartref, Adran Gwaith a Phensiynau, Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, ac Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (http://www.ind.homeoffice.gov.uk/6353/aboutus/accessionmonitoringreport9.pdf

Jumana Saleheen a Chris Shadforth, 'The economic characteristics of immigrants and their impact on supply', *Bank of England Quarterly Bulletin* Q04 2006 (http://www.bankofengland.co.uk/publications/quarterlybulletin/n06.htm).

Kathy Burrell, *War, Cold War, and New World Order: political boundaries and Polish migration to Britain*, Prifysgol De Monfort 2006 (http://www.history.ac.uk/ihr/Focus/Migration/articles/burrell.html).
http://www.workpermit.com/news/2006_08_29/eu/east_europe_migrant_benefits.htm.

CWESTIYNAU CANOLBWYNTIEDIG

1. (a) Defnyddiwch yr ystadegau isod i lunio siart cylch.

   Oedran Gweithwyr Cofrestredig o Ddwyrain Ewrop yn y DU Mehefin 2006

18 - 24:	183,000
25 - 34:	168,000
35 - 44:	44,710
45 - 54:	24,000
55 - 64:	3,400

   (b) Disgrifiwch ac eglurwch ddosbarthiad oedran y mudwyr.

2. Ym mha ffyrdd mae dosbarthiad daearyddol gweithwyr mudol gwledydd yr A8 o fewn y DU yn wahanol i'r mewnlifiadau blaenorol o fudwyr? Sut gellir egluro hyn?

3. (a) Pam mae'r DU wedi bod yn gyrchfan mor boblogaidd i weithwyr mudol o wledydd yr A8?

   (b) Gwerthuswch effaith y mudo ar y DU.

Addaswyd ac atgynhyrchwyd gyda chaniatâd Nelson Thornes o *Geofile Online* Series 26, Issue 1, September 2007: *Migration Case Study: Poland to the UK*, Neil Punnett.

Diolch i'r canlynol am ganiatâd i atgynhyrchu deunydd:

Office of Public Sector Information, Click-Use Licence No. C2006002575: t. 1(g,d), 2(g,ch)
Kathy Burrell: t. 3

Gwnaethpwyd pob ymdrech i olrhain a chydnabod deiliaid hawlfraint. Bydd y cyhoeddwyr yn falch o wneud trefniadau addas gydag unrhyw ddeiliaid na lwyddwyd i gysylltu â hwy.

Golygydd: Gwenda Lloyd Wallace
Dylunydd: Richard Huw Pritchard
Cyfieithydd: Ffion Kervegant

Diolch i Davyth Fear, Glyn Owen, Mari Jackson, Janet Cadogan, David Griffiths and Nicola Hawley (y monitoriaid) am eu harweiniad gwerthfawr.

Cyfweliadau â mewnfudwyr

Anna:

o Wlad Pwyl i Abertawe

Gadewais Wlad Pwyl dair blynedd yn ôI, yn 2005, a symud i Gymru gyda'm gŵr a'm merch mewn oed. Roedden ni am gael antur newydd, ac felly mi benderfynon ni deithio gan fod gennyf ddiddordeb mawr mewn gweld lleoedd newydd.

Roedd gennym ffrindiau yn byw yn Abertawe, felly aethon ni i'w gweld nhw pan gyrhaeddon ni y DU gyntaf. Roedden ni'n hoffi'r dref, yn arbennig gan ei bod yn ymyl y môr, a dw i'n hoffi'r golygfeydd yn fawr. Roedden ni'n byw yn ymyl y môr yng Ngwlad Pwyl.

Y brif fantais dros symud i Abertawe oedd ein bod eisoes yn gallu siarad peth Saesneg, ac felly roedd hi'n hawdd cael swydd. Yng Ngwlad Pwyl, roeddwn i'n gweithio i asiantaeth deithio ac roedd fy ngŵr yn blismon. Yma, mae fy ngŵr a'm merch yn gweithio fel glanhawyr yn yr ysgol a fi ydy eu goruchwylwraig. Dw i am wella fy Saesneg ymhellach, felly dw i'n mynychu dosbarthiadau iaith dair noson yr wythnos ac yn mynychu cwrs cyfirfiadurol ar noson arall. Dw i'n gobeithio dysgu Sbaeneg yn y dyfodol gan yr hoffwn, yn y pen draw, symud i wlad gynhesach, er bod y gaeafau yn Abertawe yn llai caled na'r rhai yng Ngwlad Pwyl.

Dydw i ddim wedi profi llawer o anfanteision, er, pan oeddwn yn gweithio mewn cartref gofal, roedd rhai o'r preswylwyr hŷn yn Gymry Cymraeg a doeddwn i ddim yn gallu siarad â nhw. Roedd hyn yn rhwystredig iawn i mi, ond ar y cyfan, does yna ddim problemau go iawn wedi bod.

Rydyn ni'n rhentu fflat ger canol y ddinas ac mae'n gyfleus iawn. Dw i'n hoffi byw yma gan fod y bobl yn ddymunol ac yn gyfeillgar. Dw i'n meddwl bod Cymru yn wlad hardd iawn.

Daria:

o Siberia i Gaergybi, Ynys Môn

Fe wnes i symud i Gymru o ddinas fawr Irkutsk yn Siberia ym mis Ebrill 2005, pan oeddwn yn 14 oed. Y rheswm dros symud oedd bod fy mam wedi priodi dyn o Ynys Môn.

Roedd yna fanteision dros symud i Gymru. Dw i wedi cael cyfle i wella fy Saesneg a hefyd i ddysgu Cymraeg gan fy mod i wedi symud i ysgol ddwyieithog. Mae Ffrangeg yn cael ei chynnig fel iaith dramor yn yr ysgol a dw i wedi mwynhau dysgu'r iaith hon hefyd. Mae cymwysterau o'r DU yn cael eu parchu'n fwy yn rhyngwladol na rhai Rwsia, a dw i'n hoffi'r ffaith nad ydw i'n gorfod gwneud cymaint o Fathemateg yn f'ysgol bresennol!! Mae wedi bod yn amgylchedd newydd ac yn ffordd newydd o fyw, ac oherwydd hynny, mae wedi bod yn her i mi.

Mae yna rai anfanteision wedi bod hefyd. Mae trefn yr ysgol yn fwy hamddenol ac felly does yna ddim cymaint o bwysau arna i i gyrraedd fy llawn botensial. Dw i hefyd wedi colli cysylltiad â'r rhan fwyaf o'm ffrindiau a'm teulu oherwydd anawsterau cysylltu.

Pan gyrhaeddais yma gyntaf, roedd pobl yn adweithio i mi mewn ffyrdd gwahanol. Roedd yna rai sylwadau hiliol i ddechrau ac roedd rhai disgyblion yn ymddangos yn ofnus ohonof, ond roedd y rhan fwyaf yn gyfeillgar iawn ac yn dangos diddordeb ynof ac yn y profiadau gwahanol roeddwn wedi'u cael hyd hynny. Bellach, dw i'n cael fy nhrin fel rhywun lleol.

Doedd y tŷ ddim yn broblem i mi, ond mae steil y tai yn wahanol iawn i'r tai yn Irkutsk. A dweud y gwir, er mod i'n byw mewn tŷ tref nodweddiadol yma, mae'n well gennyf fyw mewn tŵr fflatiau.

Fy mhrif argraff o Gymru ydy ei bod yn wledig iawn yma. Roedd y dwyieithrwydd yn dipyn o sioc gan nad oeddwn wedi clywed am yr iaith Gymraeg cyn dod yma. A dweud y gwir, ychydig iawn oeddwn i'n ei wybod am Gymru. Mae fy mam yn casáu'r bwyd ond dw i'n hoffi'r rhan fwyaf ohono.

Dyugu:
o Dwrci i Gaernarfon

Dw i'n 14 oed a dw i wedi bod yn byw yng Nghaernarfon ers naw mis bellach. Mae 'nhad wedi bod yn byw yma ers rhai blynyddoedd, cyn i weddill y teulu gyrraedd. Mae'n berchen ar siop cebabau yng Nghaernarfon.

Symudodd fy mrodyr a minnau i Gaernarfon er mwyn gallu byw gyda'n tad. Doedd o ddim yn gallu teithio i Dwrci i'n gweld am ei fod yn brysur yn ei siop. Mae'n bwysig i'm brodyr a minnau ein bod yn gallu gweld ein tad, felly fe adawon ni Dwrci a dod i fyw i Gaernarfon.

Mae'r Cymry wedi bod yn dda iawn wrthyf. Ches i ddim problemau yn cartrefu ac mae fy ffrindiau yn wych.

Mae'r iaith wedi bod yn dipyn o broblem. Dydy fy Saesneg ddim yn dda iawn, ac mae bywyd yn cael ei fyw trwy gyfrwng y Gymraeg yma yng Nghaernarfon, felly mae hynny wedi bod yn anodd iawn i mi ar adegau.

Mae fy nghartref yn Nhwrci yn fwy na'n cartref ni yng Nghaernarfon. Ond, dw i'n hoffi'r tŷ yma a does gennym ni ddim problemau.

Dw i'n meddwl bod Cymru yn wych! Dw i'n hoffi'r ffaith ei bod mor wyrdd yma a dw i'n hoffi'r môr. Dw i'n hoffi bod yma ond dydy hi ddim fel bod yn Nhwrci. Mae tywydd Twrci yn fyw dibynadwy nag yma. Mae'r tywydd yn newid cymaint yng Nghymru, o eira i law i wynt ac yna'n heulog. Dw i'n meddwl bod yn well gennyf y tywydd yma!

HyoSun:
o Dde Korea i Fangor, Gogledd Cymru

Dw i'n dod o Chuncheon yng Ngweriniaeth Korea (De Korea) ac mi wnes i symud i Gymru yn 2005. Dw i'n byw mewn capel.

Dilynais fy nhad yma, oedd yn athro gwadd ym Mhrifysgol Cymru, am fod arnaf eisiau cael profiad o astudio mewn gwlad wahanol a chael cyfle i fod â ffrindiau o wledydd eraill ac i fod yn rhyngwladol. Un o'r prif resymau dros ddod i Gymru oedd i wella fy Saesneg.

Manteision byw yng Nghymru ydy bod gan Gymru lawer o leoedd hardd lle gellwch chi fwynhau golygfeydd, fel yr Wyddfa, a lleoedd hanesyddol i ymweld â nhw, fel Caernarfon a Chonwy. Mae amgylchedd Cymru yn dda, gydag aer glân a ffres!

Dw i'n credu bod y system les yng Nghymru yn dda gan fod gwasanaeth ysbytai yn rhad ac am ddim i bawb, ac mae meddyginiaethau a theithiau ar fysiau yn rhad ac am ddim i'r henoed. Yn fy marn i, mae'r Cymry'n garedig tuag at dramorwyr.

Anfantais byw yng Nghymru ydy bod yna ddwy iaith yma (Cymraeg a Saesneg), felly mae hyn yn achosi dryswch weithiau. Er enghraifft, mae'r arwyddion ffyrdd yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae'r anfantais yma yn seiliedig ar Fangor, ble rwy'n byw.

Yn ogystal, mae Bangor yn wledig iawn, felly does yna ddim llawer o drenau uniongyrchol o drefi mawr fel Llundain a Manceinion.

Mae yna hefyd ddiffyg cyfleusterau diwylliannol ym Mangor, fel theatr, sinema a neuadd gyngerdd.

Dw i'n meddwl bod Cymru yn lle da i fyw ynddo gan fod yna lawer o leoedd i'w mwynhau a golygfeydd gwych, ac mae'r amgylchedd yn dda iawn, gydag aer glân. Yn bersonol, dw i'n hoffi'r Wyddfa a'r llynnoedd ardderchog sydd o'i amgylch. Dw i wrth fy modd yn teithio i'r trefi bach hanesyddol sydd o gwmpas ble dw i'n byw, fel Biwmares. Fodd bynnag, petai'r system gludo, yn arbennig y system drenau, a'r cyfleusterau diwylliannol yn gwella, yna byddai'n wych.

Jurgita:
o Lithuania i Gaernarfon

Dw i'n 13 oed a chyrhaeddais Gymru ar yr 8ed o Fawrth 2007.

Mi symudon ni yma fel teulu gan fod fy mam a'm tad am gael gwell swyddi na'r rhai oedd ganddyn nhw yn Lithuania. Roedd hefyd yn bwysig iddyn nhw eu bod nhw'n ennill cyflogau uwch.

Mae'r Cymry wedi bod yn gyfeillgar iawn. Mae pethau wedi bod ychydig yn haws i mi gan fod y Cymry i gyd yn gallu siarad Saesneg â mi. Mae'r iaith wedi bod yn broblem yn yr ysgol, felly dw i'n tueddu i fod yn y setiau isaf.

Dw i'n meddwl bod bywyd yn ddiddorol iawn yma gan fod yna fwy o bobl yn mynd i dafarnau i ddawnsio ac i yfed. A dim pobl ifanc yn unig – mae rhai dros 50 oed yn mynd hefyd!

Mae Cymru'n well na'm gwlad i o ran arian a phrisiau. Ond mae ysgolion Lithuania'n well o ran dysgu, yn arbennig Mathemateg.

Mae Caernarfon yn dref fechan o'i chymharu â dinasoedd mawrion Lithuania.

Mae Cymru yn wlad braf iawn a dw i'n mwynhau byw yma. Dw i'n hoffi'r cestyll mawr a'r môr gwych. Dw i'n bwriadu dychwelyd i Lithuania un diwrnod ond dw i'n hapus i fyw yng Nghymru am y tro.

Natasha:
o Zambia i Gaergybi, Ynys Môn

Mi wnes i symud i Gymru ym mis Rhagfyr 2006 pan ddechreuodd fy nhad gwrs myfyriwr ym Mhrifysgol Bangor. Roedd am astudio er mwyn ennill cymhwyster a chael gwell bywyd ar gyfer ei deulu. Mae 'nheulu yn dod o Mufulira, tref o tua 100,000 o bobl yn strimyn copr Zambia.

Y brif fantais i mi ydy'r addysg. Mae'r athrawon yn dda iawn ac yn cymryd amser i egluro, ac mae maint y dosbarthiadau yn llai yma. Hefyd, mae'r cymwysterau'n cael gwell cydnabyddiaeth yn rhyngwladol. Mae safonau byw yn llawer gwell yn y DU, ac mae costau byw yn rhatach o gymharu â'r cyflogau sy'n cael eu hennill.

Mae yna rai anfanteision wedi bod. Dw i wedi colli cysylltiad â'm ffrindiau i gyd yn Zambia a rhai o'm teulu. Mae'r rhan hon o Gymru yn ddiflas iawn o gymharu â lle roeddwn i'n arfer byw. Hefyd, dydy pobl ddim yn byw mewn ffordd Gristnogol yma er bod Prydain i fod yn wlad Gristnogol.

Dw i'n falch iawn o'r ffordd dw i wedi cael fy nerbyn yma. Does neb wedi bod yn gas wrthyf. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion wedi bod yn gyfeillgar tuag ataf.

Rydyn ni'n rhentu tŷ a chawson ni ddim problem yn dod o hyd i dŷ. Mae tai lawer yn rhatach yma nag yn Zambia o'u cymharu â chyflogau.

Fy mhrif argraffiadau o Gymru ydy ei bod yn wlad ddymunol iawn, yn arbennig Caerdydd, lle hoffai fy nheulu fyw. Mae'r rhan fwyaf o'r bobl yn yr ardal yma yn ddiflas, a dydyn nhw ddim i'w gweld yn cael llawer o hwyl. Roedd yn sioc dod i ysgol ddwyieithog, ond dw i'n teimlo mod i wedi dysgu addasu.

Steffan:
o Derby, Lloegr i Gaernarfon

Dw i'n 14 oed a daethon ni yma fel teulu ganol mis Awst 2007.

Mae 'nhad yn dod o'r ardal hon yn wreiddiol ac roedd am ddychwelyd at ei wreiddiau. Mae hefyd wedi ennill mwy o gymwysterau ac roedd am allu symud ymlaen yn ei yrfa fel meddyg yng Nghymru.

Dydw i ddim wedi cael unrhyw broblemau yn cartrefu yma. Mae pawb wedi bod yn iawn wrthyf. Cefais f'anfon i ysgol arbennig i ddysgu Cymraeg ac mae hynny wedi bod o help i ddeall beth sy'n mynd ymlaen o'm cwmpas. Mae wedi bod yn dda cyfarfod â phobl newydd a chael cychwyn newydd.

Rydyn ni'n byw mewn tŷ sydd ychydig yn llai na'r un oedd gennym yn Lloegr, ac mae'n bendant yn fwy anghysbell. Mae braidd yn rhyfedd gorfod teithio mor bell ar gyfer rhai pethau. Gan ein bod wedi byw mewn tref fawr ac ym maestref un arall, mae dod yma wedi gwneud i mi sylweddoli pa mor gyfleus oedd y lleoedd hynny.

Mae Cymru'n Gymreig! Mae'n wahanol i ble roeddwn yn arfer byw; er nad yw'n well, mae'n dda yma. Fy nelwedd o Gymru cyn dod yma oedd lle glawog, llawn defaid. Dw i bellach wedi newid rhywfaint ar fy meddwl ac yn sylweddoli bod Cymru yn wlad llawn caeau!

Petai unrhyw un am ymweld â'r ardal hon, byddwn yn bendant yn argymell y traethau sydd o gwmpas gan eu bod mor hardd a hygyrch.

Golygydd a chyfieithydd: Gwenda Lloyd Wallace
Dylunydd: Richard Huw Pritchard